CADWCH LYGAD AM Y RHAIN!

Rydym yn lwcus o gael bywyd gwyllt rhyfeddol yn ymweld â ni drwy gydol y flwyddyn oherwydd bioamrywiaeth yr ardal uwchben ac o dan y dŵr, dim ond pasio heibio mae rhai a does wybod pryd y gallent ymddangos!

Llamhidydd
Pen heb big amlwg, asgell ddorsal trionglog bach.

Morlo cyffredin
Trwyn byr gyda ffroenau siâp V, côt frown/llwyd golau, llai o ran maint na'r morlo llwyd.

Hugan
Pen melyn, llygaid glas golau, blaenau adenydd du, plu gwyn llachar. Aderyn môr mwyaf Prydain!

Môr-wennol bigddu
Cynffon fer, fforchog, pig miniog du gyda blaen melyn, crib du ar ben y pen.

Slefren Mwng Llew
Brown i gochlyd tryloyw gyda mwng trwchus o dentaclau fel gwallt.

Môr-ddanhadlen
Melynaidd/gwyn tryloyw gyda marciau brown o amgylch yr ymyl ac ar ben y gloch.

Gwylog Ddu
Plu du gyda darnau gwyn a choesau coch.

Aderyn Drycin Manaw
Rhannau uchaf du a rhannau isaf gwyn.

ARCHEBWCH RWAN!

FSC
www.fsc.org
WEDI'I AILGYLCHU
Papur wedi'i wneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu
FSC® C102875

SEACOAST SAFARIS

CANLLAW CYFLYM GWYLWYR BYWYD GWYLLT

CWMNI MOESEGOL
CARBON NIWTRAL

Mae ein mordeithiau yn berffaith ar gyfer gweld bywyd gwyllt a gwylio anifeiliaid yn eu cynefin naturiol. Rydym yn ddigon ffodus i weld rhywfaint o'r bywyd gwyllt drwy gydol y flwyddyn ac mae rhai ddim ond yn ymweld â'r ardal i fridio neu dreulio'r misoedd cynhesach gyda ni; cewch hefyd rywogaethau sy'n eich synnu ac yn ymddangos ar adegau cwbwl annisgwyl!

AMSER TYNNU LLUN!

Ewch i www.seacoastsafaris.co.uk i gael gwybod mwy am ein mordeithiau ac i archebu ar-lein.

tripadvisor®
Sgôr gyfartalog 5 seren

YNYS MÔN

WEDI GORFFEN GYDA'R DAFLEN?
Peidiwch â'i daflu, pasiwch o 'mlaen!

TRIGOLION YNYS SEIRIOL

Mae Ynys Seiriol yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae gan yr ynys y gytref fridio fwyaf o fulfrain yng Nghymru yn ogystal â chytref breswyl o forloi llwyd yr Iwerydd! Gellir gweld yr anifeiliaid canlynol drwy gydol y flwyddyn.

Mulfran
Pig hir melyn bachog, plu du sgleiniog, bochau gwyn, darn gwyn ar y glun yn ystod tymor bridio.

Mulfran werdd
Pig bachog melyn, plu gwyrdd tywyll metalaidd, crib o blu ar y pen yn ystod tymor bridio.

Morlo llwyd
Ffwr llwyd neu frown patrymog, ffroenau paralel, trwyn hir. Mae gwrywod yn fwy na benywod.

Gwylan y Penwaig
Coesau pinc, pig melyn gyda smotyn coch, cefn llwyd golau.

Gwylan Gefnddu Fach
Coesau melyn, pig melyn, llai na Gwylan y Penwaig, cefn siarcol llwyd.

Gwylan Gefnddu Fawr
Coesau pinc, pig trwm melyn, cefn du. Y mwyaf o rywogaethau'r gwylanod!

YMWELWYR GWANWYN & HAF YNYS SEIRIOL

Mae'r adar môr yn dychwelyd i'r ynys yn gynnar ym mis Ebrill ac yn gadael tua chanol i ddiwedd Gorffennaf (Ni welwch chi balod ar ein mordeithiau y tu allan i'r amser hwn). Gellir gweld y rhywogaethau canlynol ar ac o gwmpas yr ynys yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf yn unig.

Palod
Wyneb gwyn, rhannau uchaf du, pig, coesau a thraed oren llachar.

Gwylogod
Pig hir pigfain, plu brown siocled, ochr isaf gwyn.

Llursod
Pig du pen sgwâr, streipen wen rhwng y pig a'r llygad, plu du, ochr isaf gwyn.

Aderyn Drycin y Graig
Pig byr, bachog gyda thiwbiau ffroen, adenydd stiff, rhannau uchaf llwyd golau.

Gwylan Goesddu
Y lleiaf o deulu'r gwylanod, blaenau adenydd du, pig main melyn.

Hwyaden Fwythblu
Pig siâp lletem, gwrywod yn ddu a gwyn gyda marciau aur / gwyrdd ar y pen.

BRODORION Y FENAI

Mae Afon Menai yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac yn gartref i gasgliad hynod amrywiol o fywyd gwyllt. Pan mae'r llanw yn isel, mae'r glannau yn fannau bwydo arbennig ar gyfer adar rhydiol sy'n dod o ardaloedd cyfagos i wledda ar y fflatiau llaid. Mae'r rhywogaethau hyn i'w gweld ar hyn y Fenai rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Crëyr Glas
Coesau hir, pig trwm pigfain melyn, plu glas/llwyd.

Pioden Fôr
Pig hir oren, plu du a gwyn, llygaid coch.

Crëyr Bach
Coesau hir, plu gwyn, pig du, traed melyn.

Hwyaden yr Eithin
Plu du, gwyn a rhwd, pig pinc cochlyd.